

# DATBLYGU DEWISIADAU'R BRIFFORDD

Datblygwyd dewisiadau'r briffordd drwy ystyried y cyfyngiadau a cheisio cynllunio llwybr o safon uchel sy'n effeithio cyn lleied â phosibl ar gymunedau presennol a'r amgylchedd.

## Nodweddion Cynllunio Cyffredin

- Lôn gerbydau sengl gyda therfyn cyflymdra cenedlaethol safonol (60mya), a llwybr cerdded a beicio ar wahân yn rhedeg ar hyd y lôn gerbydau, yn cysylltu o ochr ddeheuol Cyffordd 34 hyd at yr A48 yn Sycamore Cross.
- Yn cynnal y cysylltedd presennol ar gyfer traffig a'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus presennol.
- Byddai'r rhannau gogleddol a deheuol yn cynnwys gwelliannau i'r ffordd bresennol.
- Mae'r dewisiadau'n cynnwys cyffyrdd newydd neu ddiwygiedig sy'n rhoi mynediad i gymunedau ac eiddo presennol.
- Cynigrir newidiadau posibl yng nghyffordd Sycamore Cross i ddiddymu'r nodwedd groesgam.
- Rhoddwyd ystyriaeth i ddewisiadau i alluogi mynediad i Lanbedr-y-fro a Gwern-y-Steeple.




## Mynediad a Chyffyrdd

Mae'r trefniadau o ran y cyffyrdd yn gyffredin i'r ddau ddewis:

- Mae angen mynediad o'r ffordd bresennol drwy Bendeulwyn i'r aliniad newydd ac mae angen ystyried cyffyrdd ar gyfer yr ochr ogleddol a deheuol.
- Byddai angen cyffordd ddiwygiedig er mwyn rhoi mynediad i Hensol.
- Yn sgil pryderon gan breswylwyr yn Gwern-y-Steeple a Llanbedr-y-fro fod problemau o ran defnyddio ffyrdd i osgoi traffig yn gwaethygu, mae'n bosibl y gallai'r mynediad presennol i lwybr Pendeulwyn yn y de gael ei gau, gyda'r traffig yn cael mynediad o lwybr presennol Pendeulwyn a'r lôn i Gwern-y-Steeple ymhellach i'r gogledd. Y dewis arall fyddai naill ai osod cyffordd-gylchfan ar yr ochr ddeheuol (a allai annog traffig trwodd i yrru drwy Lanbedr-y-fro) neu osod cyffordd groesgam (nid yw hyn yn ddelfrydol o ran diogelwch ar y priffyrdd).
- Gellir gosod cyffordd signalau newydd posibl ger Sycamore Cross heb y trefniant croesgam, a fyddai'n golygu cymryd ychydig o dir ar ochr dde-orllewinol Five Mile Lane.

## Cynllun Cyffordd Croes Sycamorwydd Potensial



## Costau'r Dewisiadau a Chyllido

Amcangyfrifwyd y costau ar gyfer pob dewis. Mae'r costau hyn yn cynnwys costau datblygiadau ac astudiaethau technegol, dylunio ac adeiladu, yn ogystal ag ystyriaethau ar gyfer costau ymgwymerwyr statudol, ffioedd, iawndal tir, darparu trefniadau mynediad, risg a thuedd optimistaidd.



Cymerir y byddai angen i'r arian am gyswllt ffordd newydd ddod o Lywodraeth Cymru a bydd Cyngor Bro Morgannwg yn cyflawni'r gwaith. Nid oes sicrwydd o ran y ffynonellau ariannu ar gyfer y dewisiadau priffyrdd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, enwir cysylltiad o Gyffordd 34 yr M4 i'r A48 yn y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol fel y'i diwygiwyd ym mis Rhagfyr 2017.

## Gwella Trafnidiaeth Strategol yn Amgylchynu Coridorau ar gyfer Cyffordd 34 yr M4 i'r A48 gan gynnwys Coridor Pendeulwyn

### Cam Dau WelTAG: Achos Busnes Amlinellol

